

---

## **Hysbysiad am gynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Troswyr Symudol) (Eithriad) 2022**

Gweithredu penderfyniad Ofcom i ymestyn amrediad y troswyr sefydlog dan do sydd ar gael i bobl eu prynu a'u gosod eu hunain heb orfod cael eu trwyddedu

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 24 Mawrth 2022

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 25 Ebrill 2022

# 1. Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â phenderfyniad Ofcom i wneud rheoliadau newydd drwy offeryn statudol. Byddai'r rheoliadau hyn yn gweithredu penderfyniad Ofcom, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 ("**Datganiad Trosyr 2021**")<sup>1</sup>, i ymestyn amrediad y dyfeisiau trosr symudol y gall pobl eu gosod eu hunain heb orfod cael trwydded.

Rydym hefyd yn cynnig yn yr ymgynghoriad hwn i wneud y rheoliadau'n niwtral o ran technoleg, ac felly i ganiatáu ar gyfer defnydd heb orfod cael trwydded o ddyfeisiau trosr symudol sy'n chwyddo signalau'n ychwanegol at y rhai a gludir ar rwydweithiau 2G, 3G a 4G (gan gynnwys, er enghraifft, signalau 5G).

Gall dyfeisiau trosr symudol chwyddo'r signal rhwng gorsaf drawsyrro gweithredwr rhwydwaith symudol a set llaw symudol. Ni ddylai fod angen i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ddefnyddio dyfais o'r fath, yn enwedig gan fod signalau symudol yn gwella trwy'r amser; gyda buddsoddiad mewn seilwaith a thechnoleg well. Er hynny, gall derbyn signal symudol yn y cartref fod yn drafferthus i rai pobl, yn enwedig os ydynt yn byw ar ymylon darpariaeth y rhwydweithiau symudol. Mae hyn oherwydd bod lefelau signal symudol yn gostwng ymhellach wrth iddynt fynd i mewn i adeiladau. Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i ddefnyddwyr ddatrys y mater hwn, gan gynnwys dyfeisiau trosr symudol, ac efallai y bydd unrhyw un sy'n profi'r broblem hon am geisio cyngor gan eu gweithredwr rhwydwaith yn y lle cyntaf.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn ymgynghori ar reoliadau drafft (Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Trosyr Symudol) (Eithriad) 2022 (y "**Rheoliadau Arfaethedig**"). Byddai'r rhain yn dirymu ac yn disodli'r rheolau eithriad trwydded presennol ar gyfer trosyr symudol. Byddai'r Rheoliadau Arfaethedig yn gweithredu'r penderfyniadau a wnaed yn Natganiad Trosyr 2021, drwy ymestyn meini prawf yr eithriad trwydded i gynnwys dyfeisiau sy'n gweithredu ar amleddau mwy nag un gweithredwr symudol. Yn benodol, byddent yn caniatáu ar gyfer defnyddio trosyr sy'n benodol i ddarparu'r a throswyr ar gyfer gweithredwyr lluosog, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion technegol penodol.

Rydym hefyd yn cynnig gwneud y Rheoliadau Arfaethedig yn niwtral o ran technoleg, ac felly i beidio â chyfyngu cwrpas yr eithriad trwydded i ddyfeisiau trosr symudol 2G, 3G a 4G.

Trwy gyflwyno'r newidiadau hyn, mae Ofcom yn gobeithio cefnogi wrth ddarparu dewis ehangach o ddyfeisiau trosr er mwyn helpu defnyddwyr i ymdrin â'u problemau darpariaeth dan do.

Ymgynghoriad statudol yw hwn. Rydym yn gwahodd sylwadau ar ba un a yw'r Rheoliadau Arfaethedig yn gweithredu ein penderfyniad yn Natganiad Trosyr 2021 yn gywir, ac ar ein cynnig i wneud y Rheoliadau Arfaethedig yn niwtral o ran technoleg. Dylid cyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 5pm ar 25 Ebrill 2022.

<sup>1</sup> [Datganiad: Trosyr ffonau symudol - Ofcom](#)